PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 49 | Rhagfyr 7, 2023 | 50c.

## Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parchg Owen Watcyn Pugh. Bu'n weinidog ym Mhontardawe a Felindre Abertawe. Cydymdeimlwn â'i wraig Christine, a'i blant Katrin, Rhian a Hywel.

## Neges amserol gan A Rocha – Eco Church UK

*Daeth Delyth Higgins o elusen A Rocha i roi cyflwyniad yn y Cyngor yn Aberystwyth, Hydref 2023 ar yr angen i'n heglwysi ni fod yn gweithredu o blaid y blaned drwy gynllun Eco Church. Dyma erthygl ganddi ar ran yr elusen.*

Erbyn i chi ddarllen hwn, bydd cynrychiolwyr o wledydd ar draws y byd wedi cyrraedd yr Emiradau Arabaidd Unedig (UAE) ar gyfer COP28 – cynhadledd hinsawdd y Cenhedloedd Unedig. Bydd yn ddiweddglo ar y rhaglen 5-mlynedd i ddatgan y camau a amlinellwyd yng nghytundeb hanesyddol Paris.



Fis diwethaf (20 o Dachwedd) gwelsom adroddiad arall gan y CU yn sôn am oblygiadau dybryd i ddynoliaeth: bod polisïau ac ymrwymiadau hinsawdd cyfredol yn ein rhoi ar drywydd cynnydd 'uffernol' o 3 gradd selsiws uwchben y lefelau cyn-ddiwydiannol. Golyga hyn y bydd llifogydd anarferol a thrymach yn digwydd yn amlach, stormydd a thannau gwyllt gydag oblygiadau catastroffig i ddiogelwch rheiny sy'n fwyaf bregus, perygl i fywoliaethau ac i'r byd naturiol. Mae pob gradd o gynnydd yn y tymheredd yn cyfrif, a dyna pam, nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen i arweinwyr y byd wrando ar y rhybuddion.

### Gweithredu byd eang

Er mai bwriad pob COP yw sicrhau cydweithrediad byd eang i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, bydd yr agenda yn newid yn ôl diddordebau y wlad sy'n cynnal y gynhadledd. Wrth galon COP28 mae'r 'Global Stocktake'. Hwn fydd yn adlewyrchu gweithrediad byd eang hyd yn hyn, ynghyd â darparu cynllun i symud ymlaen. Canlyniad yr holl drafodaethau fydd natur yr eirfa a thestun y 'penderfyniad' terfynol. Ar hyn o bryd fe fydd y 'stocktake' yn dangos fod angen i wledydd fod yn llawer mwy uchelgeisiol yn eu cynlluniau i *weithredu* er mwyn cyrraedd y targedau.

Golyga'r COP yma felly, fod yna gyfle hanfodol i wledydd gywiro neu newid cwrs eu polisïau hinsawdd.

### Tanwydd ffosil

Bydd dyfodol a rôl tanwyddau ffosil yn fater hollbwysig arall dan sylw. Mae'r COP yma wedi sbarduno dadleuon a chynnwrf gan ei fod yn digwydd mewn talaith sy'n ymdrin yn helaeth gyda phetrol, ac mai prif weithredwr y cwmni olew gwladwriaethol yw Sultan Al Jabar, sydd wedi ei ddewis fel llywydd y gynhadledd.

### Adroddiad diweddar

Mae adroddiad diweddar Rhaglen Amgylchedd y CU yn rhybuddio fod angen torri 22 biliwn tunnell o allyriadau carbon deuocsid erbyn 2030 er mwyn cyrraedd y nod a osodwyd ym Mharis o gadw'r codiad mewn tymheredd i lai a 2 gradd selsiws – mae hyn yn cynrychioli 42% o allyriadau byd eang ac yn

*parhad ar dudalen 2*

## ANRHYDEDDU SIONED YM MLAEN-Y-COED

Mae Sioned Page-Jones o bentref Blaen-y-coed yn Sir Gâr wedi gwneud gwaith aruthrol yn ei bro ac yn genedlaethol. Am hynny fe'i hurddwyd â Thlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled 2023 yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri. Caiff y tlws ei gyflwyno yn flynyddol i wirfoddolwr arbennig i gydnabod cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru. Fis diwethaf, bu achlysur arbennig yng nghapel Blaen-y-coed i ddathlu llwyddiant Sioned.

*parhad ar dudalen 2*



## Neges amserol gan A Rocha – Eco Church UK – *parhad*

gyfystyr ag allbynnau pump o lygrwyr mwyaf y byd. Dywed gwyddonwyr am flynyddoedd lawer fod angen i ni symud i ffwrdd o danwyddau ffosil yn gyflym er mwyn cyrraedd y toriadau sydd angen. Felly, mae penderfyniad yn COP28 i wneud hyn, ac i'w wneud mewn modd sy'n deg i wledydd tlawd (gyda gwledydd mwy cyfoethog yn arwain y ffordd) yn angenrheidiol.

### Trafodaeth

Pwynt o drafodaeth bwysig arall i fudiadau ac elusennau cadwraethol yw rôl byd natur i helpu gyda thaclo newid hinsawdd. Amcangyfrifir y gall traean o'r gostyngiadau mewn allyriadau sydd eu hangen ddigwydd drwy warchod ac adfer byd natur. Eto mae'r wyddoniaeth yn glir fod angen i hwn ddigwydd ochr yn ochr â symud i ffwrdd o danwyddau ffosil – nid y naill neu'r llall.

### Gobaith

Y gobaith yw felly, y bydd arweinwyr y byd yn cymryd adferiad byd natur o ddifrif ac yn buddsoddi mewn gweithredoedd a fydd yn lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac yn cefnogi cymunedau i addasu ac i adeiladu dygnwch. Er enghraifft, gwyddom fod adfer fforestydd mangrof – gwaith wedi'u wneud gan A Rocha Kenya a Ghana – yn amsugno carbon, a hefyd wedi'u brofi'n effeithiol fel amddiffynfeydd yn erbyn llifogydd arfordirol o ganlyniad i godiad mewn lefelau mor. Mae'n eithriadol o bwysig fod gwledydd yn barod i fuddsoddi yn ariannol mewn atebion a datrysiadau cadarnhaol i fyd natur ac i'r hinsawdd.

Rydym yn byw mewn cyfnod digynsail o ran newid hinsawdd a cholled byd natur: mae pob gweithredu – pob ffracsiwn o radd o godiad tymheredd, pob safle olew heb ei agor, pob ffynhonnell newydd o egni adnewyddol, pob aderyn yn yr awyr a phob fforest sy'n cael ei adennill – yn cyfrif.

### Sut allwch chi weithredu?

*Gweddïo:* Ymunwch â ni i weddïo dros y trafodaethau.

*Ymdeithio*: Ymunwch yn y gwahanol ymgyrchoedd yng Nghymru, mae manylion ar wefan climatejustice.uk ar Ddiwrnod Gweithredu Byd Eang COP ar 9 Rhagfyr.

*Ymgyrchu:* Dywedwch wrth eich gwleidyddion eich bod yn dymuno gweld natur yn cael blaenoriaeth yn yr etholiad nesaf. Edrychwch ar ymgyrch 'Nature 2023' ar wefan arocha.org.uk

*Cofrestru* : Eich capel/eglwys i fod yn rhan o Eco Church. Ewch i ecochurch.arocha.org.uk – yma gallwch helpu byd natur a chymryd camau i leihau eich ôl troed carbon.

**Delyth Higgins**
Swyddog Eco Church – Cymru

## ANRHYDEDDU SIONED YM MLAEN-Y-COED – parhad

### Cefnogaeth frwd

Cafodd ei henwebu gan aelodau Aelwyd Hafodwenog ar ran holl bobol ifanc Sir Gâr sydd wedi elwa o'i chefnogaeth a'i gwaith ieuenctid gwirfoddol, sy'n ymestyn yn ôl dros 26 mlynedd. Yn ogystal â bod yn Arweinydd yr Aelwyd, cafodd flas ar hyfforddi ac ers hynny mae llawer wedi elwa ar ei phrofiad, gan gynnwys Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin, gan mai Sioned fu'n cyfarwyddo cyflwyniad croeso yn Undeb 2022.

### Angerdd heintus

Daeth hi'n Arweinydd Clwb Ffermwyr Ifanc Pen-y-bont pan gafodd y clwb ei ailsefydlu yn 2004, gan sefydlu Côr Cymysg am y tro cyntaf yn ei hanes. Deunaw mlynedd yn ddiweddarach, mae hi'n dal wrth y llyw ac wedi hyfforddi ac arwain y Côr Cymysg i lwyddiannau mawr ar lwyfannau Eisteddfod CFfI Cymru. Mae angerdd Sioned ym maes y Ddawns Werin a Dawns y Glocsen yn heintus, ac mae wedi hyfforddi degau o grwpiau ac unigolion dawnsio a chlocsio yn enw Aelwyd Hafodwenog, Dawnswyr Talog a Chlocswyr Cowin dros y blynyddoedd. Mae'r Tyst yn llongyfarch Sioned am ei gwaith aruthrol ac yn dymuno pob bendith iddi i'r dyfodol.

## Cyngor yr Undeb: Crynodeb o gyfarfod yr Adran Tystiolaeth

Yn ystod mis Hydref cyfarfu adrannau unigol Cyngor Undeb yr Annibynwyr yn rhithiol wythnos cyn cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn Aberystwyth i drafod agendâu'r adrannau yn helaethach fel Cyngor cyflawn.

Dyma grynodeb o gofnodion o'r **Adran Tystiolaeth**, a gynhaliwyd dros Zoom ar brynhawn Iau 12 Hydref o dan gadeiryddiaeth Euron Hughes.



Daeth criw ynghyd ac yn fras trafodwyd y canlynol:

### Y Genhadaeth Ddigidol (MSP4)

Adroddwyd am y datblygiadau digidol ayyb gan Rhodri ac Elinor. Nodwyd fod sawl elfen i'r cynllun, o waith ffilm, i bodlediadau, i ddeunydd print digidol, ac i adnoddau cerddoriaeth. Roedd rhai pethau eisoes ar waith ac eraill ar fin digwydd.

### Plant, ieuenctid a'u rhieni

Cafwyd trafodaeth bellach o ran y sefyllfa gyda phlant, pobol ifanc a theuluoedd yn yr eglwysi. Edrychwyd ar 3 holiadur gwahanol posib i yrru allan i'r cyfundebau er mwyn cael darlun cliriach o beth sydd yn digwydd yn y cyfundebau ac yn ein hardaloedd ar lawr gwald. Cytunwyd i gael trafodaeth bellach i fireinio'r holiaduron, ond y bwriad oedd gyrru dau holiadur allan, un wedi'i deilwra ar gyfer y bobol ifanc a llall i'r cyfundebau.

### Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol

Trafodwyd lansiad apêl Ffynhonnau Byw oedd i ddigwydd dros Zoom yn ystod mis Tachwedd gyda chynrychiolydd o Golombia sy'n gweithio i Gymorth Cristnogol yn bresennol yn y lansiad. Nodwyd bod yr holl adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynnal gwasanaethau neu ddigwyddiadau codi arian ar gael ar wefan yr Undeb a phosteri a deunydd print wedi'u hanfon allan at yr eglwysi eisoes. Pob hwyl i bawb ar y codi arian.


*Euron Hughes*


Yr Adran Gydenwadol

RHAGFYR 07 2023 RHIF 145


# Gwasanaethau’r Nadolig – syniadau ac adnoddau









Erbyn hyn byddwn fel eglwysi yn dechrau trefnu ein gwasanaethau Nadolig. Gall y rheini gynnwys cyfarfodydd dan arweiniad y plant a’r bobl ifanc, cyfarfodydd canu carolau neu wasanaeth Llith a Charol, gwasanaethau Cristingl, ac efallai gyfarfodydd mewn ysgolion neu gartrefi preswyl. Bob blwyddyn byddwn yn chwilio am syniadau ac adnoddau newydd.

Ac mae amryw o bethau hollol newydd ar gael eleni eto, wedi eu paratoi gan nifer o fudiadau ac enwadau gwahanol. Mae’r Cyngor Ysgolion Sul yn ôl eu harfer wedi cywain yr adnoddau yma i un man cyfleus, ac mae modd cael mynediad iddynt drwy glicio ar: http://cristnogaeth.cymru/nadolig/

Mae yma adrannau helaeth sy’n cynnwys cannoedd o fyfyrdodau a gweddïau – adnoddau ar gyfer pob oed, a dweud y gwir – ac maent yno i’w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Mae adrannau ar gyfer yr Adfent, gwasanaeth Cristingl, drama’r Geni, gwasanaethau carolau, a digon o ddeunydd defosiynol ar gyfer gwasanaethau traddodiadol.

Rydym am dynnu eich sylw yn arbennig at yr adnoddau sydd i’w canfod yn yr adran **Adnoddau Nadolig Diweddar – 2023**. Yma rhestrir yr adnoddau rydym yn ymwybodol ohonynt a ymddangosodd yn gymharol ddiweddar.

### Gwasanaeth Cymraeg gan Home for Good

Ymhlith yr adnoddau newydd mae gwasanaeth pob oed cyflawn gan fudiad Cristnogol Home for Good. Dyma’r tro cyntaf iddynt baratoi adnoddau Cymraeg, a gobeithir y bydd llawer yn eu defnyddio.

### Adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol

Ceir adran hefyd yn cyfeirio ein sylw at adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol. Wrth i *Cenn@d* fynd i’w wely, doedd yr adnoddau hynny ddim wedi ymddangos yn fyw ar y wefan – ond maent ar y ffordd, felly cofiwch fynd i chwilio amdanynt.

### Dau lyfr i blant gan Gymdeithas y Beibl

Mae gan Gymdeithas y Beibl ddau lyfr newydd i’w rhannu am ddim ymhlith plant, ac maent ar gael i’w prynu am 60c yr un. Y ddau lyfr newydd eleni yw *Gwil Gŵyl yn Cael Hyd i’r Rhodd Fwyaf* ac *Mae hi bron yr awr!*, llyfryn newydd yn adrodd stori’r Nadolig ar ffurf cerdd i’r plant lleiaf. Mae’r ddau lyfryn wedi eu paratoi yn Gymraeg gan Delyth Wyn. Hefyd ar gael i’w lawrlwytho mae gwasanaeth Nadolig syml sy’n cyd-fynd efo llyfryn Gwil Gŵyl.

### Taflen garolau Gymraeg gan Embrace the Middle East

Mae gan elusen Embrace the Middle East daflen newydd sbon ar gael sy’n rhad ac am ddim i’w lawrlwytho ac yn cynnwys 20 carol boblogaidd. Cliciwch yma i fynd i wefan Embrace the Middle East, lle mae modd lawrlwytho’r ffeil PDF.

Mae gan y Cyngor Ysgolion Sul nifer o adnoddau newydd i deuluoedd hefyd dros gyfnod yr Adfent. Nodir rhai ohonynt isod:

### Jig-so ar gyfer cyfnod yr Adfent

Ydych chi’n chwilio am weithgaredd i’r teulu dros gyfnod yr Adfent, neu efallai’r rhywun sy’n mwynhau gwneud jig-sos? Mae’r jig-so Nadoligaidd newydd hwn yn cynnwys 1,000 o ddarnau, ac wedi ei gwblhau bydd yn portreadu golygfa’r geni gwyrthiol ym Methlehem 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae’r jig-so wedi ei rannu i 24 bocs gwahanol, ac felly mae ’na gyfle i greu darn o’r llun fesul diwrnod, gan gymryd y cyfle i drafod neu fyfyrio ar gynnwys yr olygfa.

### Pecyn creu golygfa preseb y Nadolig Cyntaf

Mae’r pecyn hwn yn rhoi cyfle i chi adeiladu eich golygfa o’r preseb eich hun. Mae’n amser casglu eich deunyddiau a gadael i’r hwyl ddechrau! Y cyfan sydd ei angen arnoch yw bocs cardbord bach (mae bocs esgidiau yn gweithio’n dda), cerdyn maint A4 ar gyfer argraffu’r cymeriadau, offer crefft (tâp, siswrn, creonau, marcwyr, ac ati). Gallwch ddefnyddio’r pecyn Nadolig hwn gartref neu yn yr ysgol Sul / eglwys i helpu plant i ddeall a dathlu’r newyddion da fod Iesu Grist wedi’i eni i fod yn Waredwr y byd!

### Cardiau Adfent Lein Ddillad

Dyma galendr Adfent sy’n troi’n addurn Nadolig wrth iddo gael ei greu dros gyfnod yr Adfent tuag at ddydd Nadolig. Y cyfan fydd arnoch ei angen yw 8 darn o gerdyn maint A4, cortyn tua 3 metr o hyd a 24 o begiau dillad. Gellir addurno a lliwio’r cardiau, a thrafod yr adnod o dan sylw, cyn gosod y cardiau i fyny fesul diwrnod o 1 Rhagfyr tan ddydd Nadolig.

### Gwersi Ysgol Sul newydd

Mewn cydweithrediad â Gweinidogaeth y Gwir Ffordd, mae tri phecyn o werslyfrau ysgol Sul hefyd ar gael yn yr adran yma ar y we i’w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Maent yn cynnwys detholiad o storïau, posau a gweithgareddau, ynghyd â ffilm Gymraeg newydd.

Os gwyddoch am fwy o adnoddau Nadolig newydd ar gyfer eleni, cysylltwch â ni er mwyn i ni eu hychwanegu at y rhestr sydd gennym ar y we. Anfonwch air i sylw: aled@ysgolsul.com os gwelwch yn dda.

# Rhoi llyfr yn anrheg y Nadolig hwn


Gyda'r Nadolig yn agosáu, fe fydd yna hen grwydro siopau a'r we am anrhegion i'w rhoi i deulu a ffrindiau. Yn bersonol, mae'n gas gen i fynd ar gyfyl siopau rhwng rŵan a'r Nadolig gan fod y pwyslais i gyd ar anrhegion Nadolig dibwrpas, lle gwelwn becynnu siocledi, sanau a sebon mewn bocsys ffansi, ond heb fawr o sylwedd tu fewn. Heb os, mae llawer o bres yn cael ei wastraffu ar anrhegion dianghenraid, a llawer o'r rheini'n cyrraedd y siop elusen yn y flwyddyn newydd.


Bydd eglwysi ac ysgolion Sul hefyd yn trefnu eu partïon, gydag ymweliad gan Siôn Corn a'i anrhegion blynyddol; ac eto yn aml bocsys siocledi fydd yn cael eu cyflwyno ar ei ran. Tybed a ddylem fel Cristnogion ac eglwysi roi ychydig mwy o feddwl i mewn i'r hyn rydym yn ei rannu dros y tymor yma? Fel cyhoeddwr llyfrau Cristnogol, yn naturiol rwyf am weld mwy yn rhannu llyfrau sy'n atgoffa plant a phobl o bob oed o'r hyn yw'r Nadolig, a phwy yw Iesu Grist mewn gwirionedd. Mae cyfle i ni i gyd i rannu'r Newyddion Da dros dymor y Nadolig.


Eleni eto mae toreth o lyfrau newydd wedi eu cyhoeddi, a'r rheini yn gwbl addas i'w cyflwyno'n anrhegion. Dyma ddetholiad cryno o rai llyfrau newydd.

## Llyfrau i oedolion

Ymhlith y detholiad o lyfrau newydd i oedolion mae cyfrol rhodd hyfryd *Codi'r Llen*, sy'n cynnwys 40 myfyrdod a llun o wragedd allweddol yn yr Hen Destament, a chyfrol *O Ddydd i Ddydd* sy'n cynnwys 365 myfyrdod Beiblaidd wedi eu dewis o gyfrolau'r gorffennol. Mae cyfrol o gerddi Cristnogol gan John Emyr, sef *Ffenestri Gobaith*, a chyfrol fyfyrdodol yn olrhain hanes Moses, sef *Dehongli Bywyd Moses*. Dau gofiant Cristnogol newydd yw *Liliau Tân* yn adrodd hanes Dr Rhiannon Lloyd a *Rhedeg yr Yrfa* yn olrhain taith D. Ben Rees fel gweinidog am 60 mlynedd.




## Llyfrau i blant

Mae nifer o deitlau cyffrous ac arloesol newydd ar gael i blant eleni, gan gynnwys:


*Llyfr Llechen Beiblaidd* – y llyfr cyntaf yn Gymraeg i gynnwys sgrin electronig LCD er mwyn tynnu lluniau â *stylus*;




*Llyfr Sŵn Anifeiliaid y Beibl* – cyfrol hardd sy'n cynnwys 40 botwm, pob un ohonynt yn gwneud sŵn anifail gwahanol;




*Llyfr Piano'r Nadolig* – cyfrol liwgar sy'n cynnwys chwe charol, a phiano electronig wedi ei osod ar glawr y llyfr;




*Llyfr Sticeri Beiblaidd* – llyfr anferthol maint A3 sy'n cynnwys dros 200 o sticeri a straeon Beiblaidd;




*Edrychwch, Ganwyd Iesu* – llyfr lliwgar yn adrodd hanes geni Iesu.





Maent i gyd ar gael o'ch siop lyfrau Gymraeg neu Gristnogol leol, a byddai'n dda gweld mwy yn cefnogi ein siopau llyfrau lleol yn hytrach na phrynu ar y we.

*Aled Davies*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 11**
**Bwydo'r dieithriaid**
**Sul, 10 Rhagfyr**

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, am ein bwyd bob dydd, ac am wely i orffwys arno. Diolch am deulu sy'n ein cynnal a'n cefnogi ac am ffydd fyw ynot ti. Cofiwn hefyd am y sawl sydd heb aelwyd na chynhaliaeth, heb deulu na chred ynot, a gofynnwn am gael gweld ein cyfle i ddangos trugaredd i'r sawl sy'n ddieithr i ni ac mewn angen nawr. Amen.

### Darlleniad: Mathew 15:32–9
'Yr wyf yn tosturio wrth y dyrfa' (adnod 32)

### Cyflwyniad
Nodwedd o haelioni a chymwynasgarwch yr Iddewon oedd estyn croeso a lluniaeth i ddieithriaid. Ceir nifer o gyfeiriadau yn y Beibl at y disgwyliad hwn. Yn Genesis, Pennod 18, gwelir fel y bu i Abraham estyn lletygarwch i ddieithriaid, a bu'r Israeliaid / Iddewon ar hyd y canrifoedd yn gweld gwerth moesol yn yr un modd. Roedd disgwyliad i feddwl am anghenion y teithiwr dieithr a'i gamel, a dywedir y byddai'r croeso'n golygu lladd llo ar y dydd cyntaf, lladd dafad ar yr ail, a lladd cyw ar y trydydd diwrnod. Os byddai'r dieithryn yn dal yno ar y pedwerydd diwrnod, byddai'n cael cynnig ffa. Roedd yna gyfyngiad i'r haelioni hwn.

Yn hanes porthi'r dyrfa, roedd y disgyblion yn effro i angen y dyrfa, ac roedd Iesu yn gweld cyfle i ddangos mwy nag estyn ymborth, ac i ddangos hefyd sut yr oedd ef yn troi'r ychydig yn ddigon. Cofnododd yr efengylwyr y porthi hwn fel modd o rannu natur a gwaith Iesu ar lefel ddyfnach eto fyth.

### Myfyrdod
Nodwedd ddifyr a hyfryd yw sylwi ar haelioni pobl yn wyneb argyfwng. Bydd llawer yn ei chael yn hawdd i ymateb yn hael pan ddangosir lluniau o bobl ar eu cythlwng ar adeg o sychder fel sydd ar hyn o bryd yng ngwledydd gogledd-ddwyrain yr Affrig – a da hynny. Bydd apeliadau am ddillad a nwyddau ymolchi i ddwyrain Ewrop yn sicr o ddenu ymateb, fel y gwelwn yn rheolaidd.

Serch hynny, bydd pobl yn ei chael yn anoddach i weld angen ar garreg y drws. Pan fydd pobl yn gofyn cardod ar y stryd, bydd canran sylweddol o bobl yn cerdded heibio heb hyd yn oed edrych neu gyfarch y sawl sy'n gofyn. Byddant yn ddall i'r olygfa druenus ac yn hawlio'n rhy hawdd nad yw'r gofyn i ddim ond i gynnal chwant y person am alcohol neu gyffuriau. Nid yw pawb sy'n gofyn cardod yn gaeth i gyffuriau ac mae angen deall cefndir ac angen y trueiniaid hyn. Mae'r Rainbow of Hope yn enghraifft o elusen sy'n darparu bwyd ar y stryd a gwêl rhai eglwysi hyn fel llwybr eu haelioni cymdeithasol. Yn ddi-os, mae'n ceisio byw'r Gair ac ymateb i ddameg y defaid a'r geifr.

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, am bob ymdrech i estyn cefnogaeth a chydymdeimlad i'r trueiniaid yn ein byd, yn yr apeliadau am ddillad i Romania neu wrth gefnogi'r Rainbow of Hope yng Nghaerdydd. Agor ein llygaid i weld y cyfleoedd i fyw'r Gair, ac i gydnabod angen cyd-ddinasyddion y ddaear mewn modd ymarferol a hael. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. A yw tosturi Iesu tuag at y dyrfa yn ffenomen ddyngarol neu'n ffenomen ddwyfol?
2. Yng nghyd-destun prinder bwyd a diod, meddyginiaeth a thanwydd yn Gaza ar hyn o bryd, beth fyddai arweiniad Iesu i'r rhai sy'n arweinwyr gwleidyddol yn y byd?
3. A ddylai fod gan bob eglwys gynlluniau cysgodol i gynnig bwyd a dillad ail-law ar gyfer tlodion daear?
4. Dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Cartref Suella Braverman fod llawer yn dewis byw ar y stryd. Ym mha fodd y gallwn herio'r rhagdybiaethau hyn?
5. Bydd llawer o eglwysi'r trefi poblog yn medru agor drysau eu hadeiladau i gynnig nodded. Beth allai eglwysi yng nghefn gwlad ei gynnig?




S4C
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 10 Rhagfyr**
Ar ail Sul yr Adfent bydd Nia Roberts yng Nghwm Tawe i gwrdd â gwirfoddolwyr brwd sy'n rhoi eu Cristnogaeth ar waith wrth nesáu at y Nadolig. Caiff gwmni Fiona Gannon o fenter O Law i Law, a dysgu mwy am elusen Tŷ Croeso yng Nghlydach.

BBC radio cymru
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 10 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o garolau a'r hyn a'u gwna yn arbennig i'r Parch. Nan Powell-Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 10 Rhagfyr, am 12yp**
Oedfa dan ofal Heulwen Evans, Castellnewydd Emlyn

# Dos, dywed a blogia!

*Dros y tri mis diwethaf y mae'r Parchg Alun Tudur wedi bod ar gyfnod Sabothol o'i waith fel gweinidog ac fel golygydd* Y Tyst. *Mae'n cyhoeddi ei brofiadau ar flog sabothal.blog yn wythnosol. Dyma'i gyfraniad olaf i'r blog hwnnw. Meddai Alun:*

Diolch i bawb ohonoch sydd wedi darllen Sabothal.blog. Y mae wedi fy rhyfeddu faint o ddiddordeb sy' wedi bod gyda 2,500 golwg ar erthyglau a dros 700 ymweliad mewn llai na 3 mis. Gwn fod ystadegau'n bethau twyllodrus ar y gorau ond mae'n amlwg bod diddordeb yn y math yma o beth.

Tybed pam fod cyn lleied o flogiau Cristnogol Cymraeg? A ydym wedi troi fel Cristnogion Cymraeg yn ddim byd mwy na defnyddwyr (*consumers*) sy'n llyncu'n fecanyddol safbwyntiau Cristnogion Eingl Americanaidd? Ble mae ein gwreiddioldeb? Ble mae'r trafod, y dadansoddi a'r ysbrydoli? Ble mae'r Cristnogion ifanc llawn egni? Ble mae'r ysfa greadigol i greu deunydd bywiog sy'n tystio i'r newyddion da am Iesu? Onid yw'r Ysbryd Glân yn gweithio ynom a thrwom heddiw yng Nghymru? Wrth gwrs ei fod. Dyma'r addewid i bawb o bob cenedl sy'n credu. Ydy Duw wedi rhoi yna ti awydd i wneud rhywbeth? Cysyllta os alla i helpu.

### Eglwys Ffynnon Llandysul

Ar Sul 19 Tachwedd fe es draw i Landysul i Eglwys Y Ffynnon sy'n addoli mewn adeilad clyd a phwrpasol. Y rheswm yr es i yno oedd oherwydd hon yw'r un o ychydig bach iawn o eglwysi newydd Cymraeg sydd wedi eu plannu – hyd y gwn i – yn ddiweddar. Os wyt ti yn gwybod am rai eraill, cysyllta hefo fi. (Enw addas ar yr adeilad lle cynhelir yr oedfa yw'r Hen Feithrinfa. Onid meithrinfa yw pob eglwys i fod yn plannu, bwydo a meithrin Cristnogion mewn ffydd?)



Yn wahanol i'r eglwysi eraill bûm ynddynt yn ystod y tri mis diwethaf, roeddwn yn adnabod rhai o'r bobl oedd yno. Cefais groeso cynnes a sgwrs cyn yr oedfa gyda Sara a Ryland. Croesawyd ni yn gynnes fel cynulleidfa o ryw 35-40, gan Rhys. Roedd y rhan fwyaf oedd yn bresennol yn iau na fi (61) a nifer dda o blant a phobl ifanc. Ar gyfer y di-gymraeg a'r dysgwyr roedd cyfieithu ar y pryd ac roedd geiriau'r caneuon hefyd yn ddwyieithog. (Dwi ddim wedi gweld cyfieithu ar y pryd yn unrhyw un o'r Eglwysi cyfrwng Saesneg er bod nifer o bobl o genhedloedd eraill yn bresennol. Y disgwyliad 'ymerodrol' mwn, yw bod PAWB yn deall SAESNEG neu angen dysgu.)

### Mawlweinydd

Y mawlweinydd oedd Rhys Hughes ar yr allweddell a gynorthwywyd gan Steff Morris ar y guitar. Roedd elfennau mwy carismataidd i'r mawl fel porthi a dyrchafu dwylo yn ystod yr addoliad nac sy yn y mwyafrif llethol o oedfaon Cymraeg. Braf yw gweld cynulleidfa yn ymateb ar lafar i'r arweinydd a'r pregethwr yn hytrach nac eistedd fel delwau. Roedd yr holl dechnoleg angenrheidiol yno i hwyluso'r gweithgareddau. Arweiniwyd ni i ganu tair cân ar y dechrau gan Rhys sy'n amlwg yn gerddor o fri a chyda dawn i arwain cynulleidfa i fyfyrio ar Dduw a'i gariad rhyfeddol. Rhwng y caneuon byddai'n dyfynnu adnodau ac yn gweddïo. Roeddwn yn gwybod pob un ond un o'r caneuon y tro hwn. Cafwyd cyhoeddiadau'r wythnos ac yr oedd nifer o weithgareddau ar y gweill yn cynnwys noson ddysgu sut i genhadu ymhlith pobl ifanc gyda Siân Ifan. Aeth y plant allan i'w gweithgareddau. Hoffwn nodi dau beth yn arbennig yn yr oedfa hon.

### Cymraeg

Yn gyntaf. Roedd hon yn oedfa Gymraeg. Dyma'r tro cyntaf i mi addoli trwy gyfrwng y Gymraeg ers misoedd ac mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn brofiad gwych. Fe'm magwyd ar fron yr eglwys, fe'm dysgwyd am Iesu, fe ddeuthum i ffydd, fe weddïais a darllenais fy Meibl, fe wnes radd ddiwinyddol, priodais, fe'm galwyd i'r weinidogaeth, megais deulu a dwi wedi bod yn weinidog i'r Arglwydd Iesu ers 37 o flynyddoedd a hynny i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Er hynny, mae wedi bod yn brofiad buddiol i mi gamu allan o'r swigen Gristnogol Gymraeg am 3 mis a phrofi sypiau grawnwin gwahanol.

Eto, mae addoli Duw trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad mwy bendithiol, dealladwy, teimladwy ac ystyrlon i mi. Dyma a brofais wrth addoli yn y Ffynnon ac yfed o ddyfroedd y bywyd. Cadarnhawyd yr alwad sydd arnaf eto i weithio ymhlith Cymry Cymraeg yn benodol. Addoliad cyfoes oedd hwn ac er mwyn cyrraedd Cymry Cymraeg na wyddant ddim am Gristnogaeth na'n traddodiad Ymneilltuol, rhaid newid ein diwylliant – nid newid yr Efengyl – a symud ymlaen yn enillgar. Heb hynny amherthnasol fydd ein tystiolaeth a rhyw Sain Ffagan o beth fydd ein cyfarfodydd. (Nid wyf yn difrïo Sain Ffagan ond yn ei defnyddio i wneud pwynt.) Nid yw hynny'n gyfystyr a chefnu ar ein treftadaeth Gristnogol. Fe ddiogelwn y cyfoeth hwnnw yn ogystal â diwygio ein dulliau.




### Menyw

Yn ail, menyw oedd y pregethwr sef Heulwen o 21st Century Church, Llanelli. www.21stcenturychurch.co.uk/ Dyma'r tro cyntaf i mi wrando ar ferch yn pregethu yn yr eglwysi y bûm ynddynt yn ddiweddar. Nid wyf yn credu y byddai caniatâd i ferched bregethu yn rhai ohonynt. Dwi'n anghytuno gyda'r safbwynt hwn yn llwyr ac yn Ebeneser rydym yn annog, hyrwyddo a chroesawu merched i agor gair Duw mewn oedfaon a hynny oherwydd ein dealltwriaeth o'r gair hwnnw. (Er mwyn gweld safbwynt iach am hyn, sy'n Feibl-ganolog, hoffwn eich annog i ddarllen llyfryn Arfon Jones ar y mater hwn sef *Y Beibl ... ar Ferched*. Yma mae Arfon yn delio gyda'r adrannau hynny o'r Beibl sydd yn ôl rhai yn gwahardd merched rhag pregethu. (Gellir prynu copi o wefan Cyngor Ysgolion Sul.)

Heb os, hon oedd y bregeth fwyaf eneiniedig (*anointed*) a glywais yn ystod y cyfnod Sabothol. Roedd y cyflwyniad yn

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Barn Annibynnol

## Y chwarae'n troi'n chwerw

A chynhadledd COP28 ar Newid Hinsawdd yn cael ei chynnal ddiwedd Tachwedd, wna i ddim ymddiheuro am droi i'r maes hwnnw eto.




### Adroddiad arswydus

Ym mis Tachwedd cyhoeddwyd adroddiad arswydus gan UNEP (*UN Environment Programme*) ar yr hinsawdd. Ar sail polisïau presennol y byd, bydd tymheredd y Ddaear yn codi tair gradd canradd uwchben lefelau cyn-ddiwydiannol erbyn 2100. O gofio mai'r targed presennol yw cadw'r cynnydd at 1.5 gradd, golygai dyblu'r cynnydd hwnnw ddinistr llwyr i wareiddiad y ddynoliaeth.

I gadw at yr 1.5 gradd rhaid lleihau allyriadau carbon o 42% – bron â'u haneru! – erbyn 2030.

### Torchi llewys

Gan hynny, rhaid i bob llywodraeth, mudiad ac unigolyn dorchi'u llewys ar fyrder. Yn cynnwys maes sydd o ddiddordeb mawr i fi, a miliynau o bobol eraill, sef byd chwaraeon.

### Llai o deithio – llai o gemau

Y ffactor mwya sy'n chwyddo ôl troed carbon ein chwaraeon yw teithio. Teithiau unigolion a thimau i gystadlu, ond hefyd teithiau'r miloedd lawer o gefnogwyr sy'n dilyn y timau.

Y dull hawsaf i leihau ôl troed carbon y gwahanol gampau, felly, yw cynnal llai o gemau a chystadlaethau. Dagrau pethau yw bod y campau mwya poblogaidd yn gyrru i'r cyfeiriad arall, a threfnu MWY o gystadlu!

### Ystyriwch, bêl-droed!

Ystyriwch bêl-droed. Arferai rowndiau terfynol Cwpan y Byd gynnwys 16 o dimau. Yn 1982 cynyddwyd y nifer i 24 tîm, yna i 32 yn 1998. Ond penderfynodd FIFA, corff rheoli pêl-droed y byd, y bydd 48 (!) tîm yn cymryd rhan yng Nghwpan 2026, pob un yn denu miloedd o'u cefnogwyr i hedfan o amgylch Mecsico, Canada a'r Unol Daleithiau. A'r difrod i'r amgylchedd? Beth yw hwnnw, medd FIFA.

### Ffor shêm ar FIFA ac UEFA

Ar ben hynny, cynllun gwych nesa FIFA yw lansio Cwpan Byd i Glybiau, 32 ar y tro, yn 2025!

Dyw UEFA, corff rheoli pêl-droed Ewrop, tamed callach. Bob tymor trefnir tair cystadleuaeth ryngwladol i glybiau'r cyfandir, Cynghrair y Pencampwyr, y Gynghrair Ewropa a'r Gyngres Ewropeaidd. Golyga hyn fod timau a'u ffans yn hedfan ar draws y cyfandir i ddilyn 125 o gemau ymhob cystadleuaeth, a hynny ar ôl rowndiau rhagbrofol hefyd. Digon o bwdin? Na, wrth gwrs. Yn nhymor 2024-5 bydd UEFA'n cynyddu nifer y gemau i ryw 190 ymhob cystadleuaeth, cynnydd o ryw 35% yn nifer y gemau – a'r allyriadau carbon.

### Bac o' ddy (sero) net?

A beth am yr Ewros, twrnamaint y gwledydd, lle bu Cymru'n rhagori'n ddiweddar? Yn 70au'r ganrif ddiwethaf byddai pedair neu wyth gwlad yn ymgiprys yn y rowndiau terfynol. Yna daeth cynnydd i 16 tîm, ac erbyn hyn i 24. Bu hyn o fantais i wledydd llai fel Cymru, wrth reswm, ond y gost yw mwy o deithio a mwy o allyriadau.

### Dal i rygbi arni

Patrwm tebyg a welwn ym myd rygbi. Ehangodd Cwpan y Byd o 16 gwlad yn 1987 i 20 eleni, a bwriad *World Rugby* yw cynnwys 24 o dimau yn Awstralia 2027. Mae Bill Beaumont, Cadeirydd *World Rugby*, yn brolio eu cystadleuaeth newydd nhw hefyd, Pencampwriaeth y Cenhedloedd. Yn hon, bydd 12 gwlad a'u cefnogwyr yn hedfan o un hemisffer i'r llall i chware bob dwy flynedd, yn ogystal â Chwpan y Byd.

A beth am gystadleuaeth ein rhanbarthau rygbi yng Nghymru? Ehangu eto yw'r hanes, o gynghrair y gwledydd Celtaidd i gynnwys yr Eidalwyr, a bellach y teithio costus nôl ac ymlaen i Dde Affrig i gynnwys eu pedwar tim nhw.

### Fformiwla am well byd?

Yr unig gamp fyd-eang a gyhoeddodd gynllun lleihau-allyriadau yw Fformiwla Un. Yn ôl hwnnw, bydd y gamp yn garbon-niwtral erbyn 2030, er y feirniadaeth ddiweddar na wnaed dim cynnydd at y nod eto.

### Dall neu dwp?

Ydi gweinyddwyr y campau yn ddall neu'n dwp?

Dim un o'r ddau. Ond mae dau gymhelliad cryf ganddyn nhw. Er mwyn cael eu hethol i'w swyddi breintiedig mae angen addo pethau newydd. Fel darparu mwy o lefydd i dimau mewn cystadlaethau – i fachu pleidleisiau'r gwledydd!

Yn ail, arian! Golyga mwy o gemau fwy o incwm, i'r corff byd-eang ac i'r gwledydd a'r clybiau. Mae'r gweinyddwyr pwysig yn rhoi elw byrdymor o flaen lles hirdymor y ddynoliaeth.

### Digon!

Daliwn i aros am arweinwyr ein campau sydd â'r dewrder a'r weledigaeth i weiddi 'Digon! Cawn lai o gystadlu, llai o deithio, derbyn llai o incwm i bawb, ond helpu sicrhau dyfodol diogel i holl bobol y byd.' Fel arall, hoffwn i ddim dychmygu'r dyfodol sy'n aros ein plant a'n hwyrion oll.

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Dos, dywed a blogia! – parhad

llawn tân argyhoeddiad. 'Traed gwlyb' oedd y teitl arni ac fe aeth Heulwen â ni i hanes yr Iddewon yn croesi afon yr Iorddonen yn Josua pennod 3. 'Dw i eisiau i ti ddweud wrth yr offeiriaid sy'n cario Arch yr Ymrwymiad, "Pan ddewch chi at lan afon Iorddonen, cerddwch i mewn i'r dŵr a sefyll yno."' Josua 8: 8

Siaradodd o dan dri phen sef,

1. **Camu mas yn sanctaidd.** Rhaid i ni fod yn sanctaidd wrth ddod at Dduw sy'n sanctaidd. Digwydd hyn trwy ras Duw yn Iesu yn ein golchi'n lân a gwaith yr Ysbryd yn ein calonnau
2. **Camu mas i'r llif**. Mentro mewn ffydd. Nid yw llif cryf afon yr Iorddonen yn stopio tan mae traed pobl Israel wlyb yn y dŵr. Josua 3:14
3. **Camu mas gyda Duw**. Roedd presenoldeb Duw yn mynd o flaen ei bobl yn Arch y Cyfamod. Roedd y bregeth yn llawn anogaeth ac ysbrydoliaeth i fentro mewn ffydd. Roedd hefyd yn llawn darluniau perthnasol oedd yn ein cynorthwyo i ddeall yr hanes yn well. (Mewn un man safodd Heulwen mewn bwced mawr o ddŵr.) Hoffwn annog unrhyw fenyw sy'n teimlo galwad i bregethu i wneud hynny gyda chymeradwyaeth ei heglwys ac o dan arweiniad ei chyd-aelodau. (Gyda llaw 'roedd hi yn dal meic yn ei llaw trwy gydol y bregeth!!!)

Wedi'r oedfa roedd bwydydd blasus a phaned wedi eu paratoi a chyfle i bawb fwyta a chymdeithasu gyda'i gilydd. Diolch i Ffynnon Llandysul am y fraint o gael ymuno gyda chi a phob bendith yn y gwaith i'r dyfodol.

(allan o *sabothal.blog*
19–25 Tachwedd 2023)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk


*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# NEWYDDION EGLWYS HOPE-SILOH

### Derbyn aelod newydd

Hyfrydwch oedd derbyn Siân Hinton yn aelod yn ein hoedfa gymun fis Hydref. Croeso adref i deulu Hope-Siloh Siân, a phob bendith a dymuniad da i'r dyfodol.



### Gwasanaeth Nadolig y Plentyn eglwys Hope-Siloh

Cafwyd gwasanaeth hyfryd fore Sul 20 Tachwedd o dan ofal plant ac ieuenctid y capel. Cafwyd gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o ymgyrch Nadolig y Plentyn, a'r plant ifancaf yn hysbysebu'r ymgyrch yn llwyddiannus tu hwnt. Braf oedd gwrando ar gyfraniadau gan Heledd a Hari hefyd ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch yn fawr i Meinir Jones am baratoi'r cyflwyniad ac i Marie-Lynne am drefnu'r gwasanaeth.



### Bedyddio dwy

Cafwyd oedfa hyfryd ar fore Sul 27 Tachwedd pan fedyddiwyd Fiorella Mair ac Efa Liliwen ym mhresenoldeb cynulleidfa gref. Croeso mawr iddynt hwy a'u teuluoedd i deulu Hope-Siloh Pontarddulais. 'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf i'.








*Pobl ifanc Capel Soar Maesyrhaf, Castell-nedd, yn dathlu'r cynhaeaf gyda'u hathrawes Nia Eleri Johns a'u gweinidog Parchg Gareth Morgan Jones.*




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*